Bod yn lân

Cysyniadau:	**Dysgu o brofiad, gweledigaeth, sylwgarwch.**
Amcan:	**Dangos gwerth y pethau cyffredin.**
Cyfarpar:	**Gwahanol gynhwysion glanhau e.e. polish, bleach, halen, lemwn, cyllell, powlen o ddŵr cynnes, ceiniogau a dwy geiniogau. Cadw'r halen a'r lemwn o'r neilltu tan ail hanner yr addoliad.**

Cyflwyniad:

● Ar y bwrdd o'n blaenau mae nifer o gynhwysion glanhau. Eu dangos fesul un a holi'r plant ydyn nhw wedi'u gweld o'r blaen a beth yw eu pwrpas. Faint o'r plant neu eu rhieni sydd wedi defnyddio'r rhain i lanhau? Pwysigrwydd bod yn ofalus wrth eu defnyddio oherwydd gall y cemegau fod yn niweidiol.

● Pwysleisio bod glanweithdra yn bwysig. Cadw ein hunain yn lân. Cadw'r tŷ yn lân. Faint ohonyn nhw sy'n glanhau eu stafell wely a'i chadw'n daclus?

● Pa mor hawdd oedd hi i lanhau ers talwm? Mewn rhai tai doedd dim cawod na bath. A doedd yr holl gynhwysion, fel y rhain ar y bwrdd, ddim ar gael.

● Holi'r plant am y defnydd o'r cynhwysion ar y bwrdd. Defnyddio'r polish a dangos fel mae'n codi'r llwch ac yn sgleinio'r arwynebedd ac mae arogl hyfryd arno hefyd. Holi am y prisiau. Bydd angen i'r arweinydd roi cymorth i'r plant. Rhai o'r cynhwysion yn eithaf drud.
Wedyn dangos i'r plant fod yna ffordd ratach o lanhau a hynny heb

ddefnyddio cemegau.

● Mae gen i arian yn fy llaw – chwech o geiniogau a chwech o ddwy geiniogau. Dyma'r dyddiadau ar rai ohonyn nhw. Maen nhw wedi cael eu defnyddio ers rhai blynyddoedd ac maen nhw'n edrych yn fudr. Tybed fedrwn ni eu glanhau nhw a'u gwneud nhw i edrych fel newydd a hynny heb ddefnyddio'r cynhwysion hyn?

● Rhoi'r ceiniogau a'r dwy geiniogau ar soser ac ysgwyd yr halen arnyn nhw nes eu gorchuddio, yna torri'r lemwn yn ddau a gwasgu'r sudd ar y ceiniogau. Cymysgu'r ceiniogau efo llwy. Yna cymryd y ceiniogau o'r gymysgedd a'u rhoi yn y bowlen o ddŵr. Yna eu sychu a'u dangos i'r gweddill. Y plant i wneud hyn o dan oruchwyliaeth.

● Gellir, os dymunir, gymharu'r ceiniogau sydd wedi eu gorchuddio â'r halen a'r lemwn a'r rhai sydd wedi eu chwistrellu â'r polish. Pa rai sy'n edrych fel newydd?

Trafodaeth bellach:

● Trafod sut mae pethau mor gyffredin â halen a sudd lemwn wedi gweithio'n well na'r polish a hynny mewn amser byr.

● Ehangu'r drafodaeth i gyfeirio at bethau cyffredin fedr wneud gwahaniaeth fel mae'r sudd lemwn a'r halen wedi gwneud e.e. dysgu bod yn garedig.

Stori:

Roedd gan y plant i gyd feddwl y byd o Bob. Bob oedd y dyn lolipop. Y fo fyddai'n croesi'r plant yn ddiogel ar draws y ffordd fawr yn y bore ac ar ddiwedd y pnawn. Ar adegau arbennig byddai Bob yn rhoi rhywbeth ychwanegol ar dop y polyn – Siôn Corn adeg y Nadolig, cwningen adeg y Pasg a gwrach adeg Calan Gaeaf. Yr adeg hynny byddai'r ceir oedd yn mynd heibio yn stopio i weld beth oedd gan Bob ar ben y polyn.

Ond un bore doedd Bob ddim yno. Daeth ei wraig, Dora, yn ei

le.

'Lle mae Bob?' holodd y plant.

'O, dydi o ddim yn dda o gwbl,' meddai Dora ei wraig.

Penderfynodd y plant eu bod nhw am gasglu arian er mwyn cael anrheg i Bob am ei fod mor garedig efo nhw. Dyna lle buon nhw am ddyddiau yn casglu digon o arian i brynu anrheg i Bob, i godi'i galon. Erbyn diwedd yr wythnos roedd dros gan punt wedi'i gasglu.

'Beth gawn ni'n anrheg i Bob?' gofynnodd Mr Williams y pennaeth.

'Beth am i ni ofyn i berchennog y siop siocledi yn y dref wneud lolipop mawr siocled iddo fo ac efo gweddill yr arian fe gaiff o brynu anrheg iddo fo'i hun?' A dyna ddigwyddodd.

'Diolch i chi am fod mor garedig,' meddai John wrtho ar ran plant yr ysgol.

'Diolch i chi am fod mor garedig efo mi,' meddai Bob â dagrau yn ei lygaid.

Roedd caredigrwydd y plant wedi codi calon Bob.

Emyn: Gofalu, rhannu: Canu Clod 190

Dyfyniad o'r Beibl:
Mae bendith fawr i'r rhai sy'n helpu pobl mewn angen.
Diarhebion 14:21 beibl.net

Munud i feddwl:
Mae caredigrwydd yn iaith y mae'r byddar yn ei chlywed a'r dall yn ei gweld. Mark Twain

Myfyrdod/Gweddi:
O Dduw, helpa fi i wneud y pethau bach syml. Helpa fi i fod yn garedig wrth bawb. Amen.